Disgrifiad Swydd – Tiwtor (Rhaglenni Tiwtora Disglair/Ysgolheigion)

Teitl Swydd	**Tiwtor (Rhaglenni Tiwtora Ysgolheigion)**
Rheolwr Llinell	Rheolwyr Rhanbarthol
Cyflog	o £572 y lleoliad/ £124 ychwanegol ar gyfer dylunio cwrs (Rhaglen YsgolheigionCA4-5 yn unig). Bydd modd hawlio treuliau teithio hefyd.
Contract	Cyfnod penodedig
Oriau	Mae pob rhaglen yn cynnwys 15 awr o hyfforddiant ynghyd â hyfforddiant, amser paratoi a marcio. Y dadansoddiad fesul awr ar gyfer pob math o leoliad yw:

Y raglen	**Oriau**
Cyfnod Allweddol 2-3- Cwrs wedi ei gynllunio gan The Brilliant Club	40-45
Cyfnod Allweddol 4-5- Tiwtor Newydd, yn dylunio a chyflwyno cwrs newydd	55-57
Cyfnod Allweddol 4-5- Tiwtor sy'n dychwelyd, ac yn cyflwyno cwrs wedi'i gynllunio'i hun eto	40-45

Man cynnal	Cynhelir pob lleoliad mewn ysgol neu ar-lein.
Dyddiad Dechrau	Parhaus

Y Sefydliad

Mae The Brilliant Club yn elusen mynediad prifysgol arobryn. Rydym yn gweithio gydag ysgolion a phrifysgolion ledled y DU ac yn ysgogi'r gymuned PhD i gefnogi myfyrwyr llai breintiedig i gael mynediad i'r prifysgolion mwyaf cystadleuol ac i lwyddo pan fyddant yn cyrraedd yno. Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, mae The Brilliant Club yn cynnal dwy raglen graidd: Y Rhaglen Ysgolheigion a Y Rhaglen Tiwtora Disglair.
Mae gan y Brilliant Club ymrwymiad i sicrhau canlyniadau cyson i'n disgyblion, fel yr amlinellir yn ein strategaeth Ymuno â'r Clwb.

Y Cyfle

Rydym yn gyffrous i fod yn recriwtio ar gyfer tiwtoriaid i gyflwyno ein rhaglenni sy'n cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol ystyrlon, cyflogedig i ymchwilwyr PhD a Gyrfa Gynnar.

Bydd tiwtoriaid sy'n gweithio gyda ni yn:

- Cefnogi disgyblion lleol o gefndiroedd difreintiedig
- Cael hyfforddiant arbenigol a phrofiad go iawn i ddatblygu eu sgiliau addysgu a chyfathrebu ymchwil
- Ymunwch â chymuned genedlaethol o ymchwilwyr sy'n cael effaith sylweddol ar fynediad i brifysgolion
- Datblygu cymwyseddau sy'n gydnaws â Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae'

Cewch ragor o fanylion am y Rhaglen Tiwtora Disglair a'r Rhaglen Ysgolheigion yma.

Mae *The Brilliant Club* yn bodoli er mwyn cynyddu nifer y disgyblion o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli sy'n mynd ymlaen i brifysgolion detholus iawn. Mae'n bwysig i ni fod ein helusen yn adlewyrchu profiadau bywyd ein buddiolwyr, ac rydym am fod yn sefydliad lle gall gweithwyr o bob cefndir ffynnu. Yn arbennig, rydym yncroesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl, Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME), Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, gan gynnwys pobl anneuaidd (LHDT+), ac ymgeiswyr o deuluoedd incwm isel. Mae'r grwpiau hyn wedi'u tangynrychioli yn *The Brilliant Club* ar hyn o bryd ac rydym wedi

ymrwymo i ehangu cynrychiolaeth ac amrywiaeth yn yr elusen.

Y broses dethol

1. **Cais ysgrifenedig** – a gaiff ei adolygu gan dîm recriwtio *The Brilliant Club*
2. **Canolfan Asesu** – gofynnir i chi baratoi ac addysgu gwers fach a chael eich cyfweld gan staff *The BrilliantClub*
3. **Gwiridau Cyn Cyflogi**- bydd eich cyflogaeth ym amodol ar wiriad DBS, gwiriad Hawl i Weithio, gwiriad TRA, a thystlythyrau addas.

Manyleb Person
Rheoli Amser ac Adnoddau
Hanfodol

- *Gallu cynllunio sesiynau'n drefnus ac effeithlon a chadw at derfynau amser cytunedig.*
- *Un gwych am gadw amser sy'n gofalu eich bod yn cyrraedd sesiynau'n brydlon; trefnus iawn mewn sesiynau.*
- *Gallu addasu'n gyflym i systemau/brosesau newydd.*

Dymunol

- *Defnyddio systemau digidol yn hyderus i gyflwyno gwersi ar-lein.*
- *Profiad o greu adnoddau/gwaith i eraill; gallu mapio cyfres o sesiynau mewn modd cydlynol a rhesymegol.*

Gwybodaeth am Randdeiliaid Allanol a'u Rheoli
Hanfodol

- *Gallu gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc.*
- *Dull proffesiynol o ddatrys problemau gydag ystod o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â lleoliadau.*
- *Ymwybyddiaeth o'ch rôl fel ymwelydd yng nghymuned yr ysgol; deall yr ymrwymiadau eraill sydd gan weithwyr proffesiynol mewn ysgol.*
- *Deall cenhadaeth The Brilliant Club a'r agenda Ehangu Cyfranogiad yn genedlaethol.Dymunol*
- *Deall y rhwystrau mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ran cael mynediad i'r brifysgol a rhai ffyrdd posibl i'w goresgyn.*
- *Deall hinsawdd bresennol y system ysgolion yn y Deyrnas Unedig a rhai o'r heriau y gallai pobl ifanc fod yn eu hwynebu.*

Cyfathrebu
Hanfodol

- *Ymwybyddiaeth o sut i ymgysylltu â disgyblion ac addasu arddull dysgu prifysgol ar gyfer lleoliad ysgol.*
- *Gallu cyfathrebu mewn modd amserol a phroffesiynol â staff The Brilliant Club ac athrawon.*
- *Gallu addasu dulliau addysgu i fodloni anghenion pob dysgwr.*
- *Gallu esbonio ymchwil mewn modd hygyrch i gynulleidfaoedd anarbenigol (Rhaglen Ysgolheigion).*

Myfyrgarwch
Hanfodol

- *Gallu nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, agored i adborth.*
- *Dyhead i ddatblygu sgiliau tiwtora/addysgu.*

Profiad a Chymwysterau penodol ar gyfer y Rôl

Hanfodol
• Yn astudio ar gyfer PhD ar hyn o bryd neu'n meddu ar ddoethuriaeth (dim terfyn amser o ran pryd y cwblhawyd PhD).
NEU
• Cwblhawyd yn ddiweddar (o fewn y flwyddyn ddiwethaf) neu ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer gradd Meistr yn ymwneud â Saesneg, Mathemateg neu Wyddoniaeth – tiwtora Rhaglen Diwtora Gwych yn unig.

Dymunol

Peth profiad o addysgu neu weithio gyda phobl ifanc (er nad yw hyn yn hanfodol o bell ffordd gan ybydd gofyn i chi fynychu hyfforddiant The Brilliant Club)

Disgrifiad Swydd – Tiwtor (Rhaglenni Tiwtora Disglair/Ysgolheigion)

Meysydd Cyfrifoldeb Allweddol

- Cyfathrebu â *The Brilliant Club* bob tymor i roi gwybod i ni a fyddwch ar gael ar gyfer lleoliadau yn y tymor sydd i ddod.

Os cewch leoliad mewn unrhyw dymor, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Cyfathrebu'n rheolaidd ac mewn modd proffesiynol â'r athro/athrawes arweiniol yn ysgol eich lleoliad a'ch Swyddog Rhaglen *Brilliant Club*.
- Mynychu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer y rhaglen y byddwch yn ei haddysgu.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer pob tiwtorial, gan sicrhau eich bod chi wedi cynllunio'r sesiwn.
- Addysgu'r tiwtorialau yn ôl yr amserlen – bydd pob tiwtorial yn para 1 awr.
- Cofrestru'r disgyblion gan ddefnyddio ein platfform ar-lein.
- Marcio aseiniadau a gwaith cartref y disgyblion yn ôl y gofyn ar gyfer y math o leoliad.
- Safoni gwaith marcio tiwtoriaid eraill i sicrhau arferion gorau a chywirdeb ar draws ein rhaglenni.
- Lanlwytho'r gwaith marcio yn ôl y gofyn ar gyfer y rhaglen rydych chi'n ei dysgu.

Diogelu yn The Brilliant Club

Mae The Brilliant Club wedi ymrwymo i weithio'n rhagweithiol i ddiogelu plant, buddiolwyr a staff ac i gymryd camau rhesymol i amddiffyn pawb sy'n dod i gysylltiad â'r Elusen rhag niwed. Mae diogelwch a lles pawb y mae gweithgareddau'r Elusen yn effeithio arnynt, yn enwedig plant, yn un o'r prif flaenoriaethau llywodraethu. Gallwch ddarllen ein polisi diogelu yma.

Fel rhan o'n proses recriwtio a dethol a'n hymrwymiad i ddiogelu, byddwn yn gofyn am wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ynghyd â gwiriad o'r rhestrau gwaharddedig (plant) ar gyfer pob unigolyn yn y rôl hon. Bydd unrhyw gyflogaeth a gynigir yn amodol ar adroddiad datgelu boddhaol.

Gallwch ddarllen ein polisi DBS a Recriwtio Cyn-droseddwyr yma.

Gwneud cais	Cliciwch yma i lenwi ein Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac yma i gyflwyno eich cais. Sylwch na fyddwn ond yn ystyried ceisiadau sy'n cyfeirio at y swydd hon.
Dyddiad cau	Proses ymgeisio dreigl – i weld y dyddiad cau nesaf, ewch i: https://thebrilliantclub.org/the-scholars-programme/for-researchers/application/
Cyfweliadau	Proses Canolfan Asesu dreigl – cewch wahoddiad i ddod i'r slot gwag nesaf.
Manylion pellach	I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu e-bostiwch apply@thebrilliantclub.org